LEG-26-2002(min)

**CYFARFOD Y PWYLLGOR DEDDFAU**

**COFNODION:**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 3 Rhagfyr 2002 |
| **Amser:** | 9:30 a.m. |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

**Presennol:**

| | |
|---|---|
| Mick Bates | (Democrat Rhyddfrydol) |
| Rosemary Butler | (Llafur) |
| Ron Davies | (Llafur) |
| Pauline Jarman | (Plaid Cymru) |
| Ann Jones | (Llafur) |
| Dr Dai Lloyd | (Plaid Cymru) |
| Karen Sinclair | (Llafur) |
| Owen John Thomas | (Plaid Cymru) |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| John Turnbull | Ymgynghorydd Cyfreithiol |
| Huw Rowlands | Ymgynghorydd Cyfreithiol |
| Olga Lewis | Clerc y Pwyllgor |
| Simon Thwaite | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb:** Glyn Davies

**Eitem 1: Cofnodion y cyfarfod blaenorol a materion sy’n codi: LEG-25-2002(min)**

1.1 Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 26 Tachwedd 2002.

**Eitem 2: Adroddiad y Cadeirydd**

**2.1 Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau bod y Pwyllgor wedi penderfynu yn y cyfarfod** blaenorol i wahodd Pennaeth Gwasanaethau Ymchwil yr Aelodau sef Debra Carter i wneud cyflwyniad chwarter awr gerbron y Pwyllgor ynglŷn â’r gwasanaethau y mae ei hadran hi yn eu cynnig yn awr. Hysbysodd y Cadeirydd y Pwyllgor bod trafodaeth i’w chynnal heddiw am y cyflwyniad i Gomisiwn yr Arglwydd Richard. Nododd y Cadeirydd hefyd bod hwn yn fater pwysig ac y byddai’r drafodaeth yn debygol o gymryd peth amser. O ganlyniad, awgrymodd y

dylid gofyn i Debra wneud ei chyflwyniad ac ateb unrhyw gwestiynau a allai fod gan y Pwyllgor yn y cyfarfod nesaf a gynhelir ar 10fed Rhagfyr 2002.

2.2 Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau bod y Pwyllgor wedi penderfynu yn y cyfarfod blaenorol y dylai'r cyflwyniad i Gomisiwn yr Arglwydd Richard gael ei drafod fel mater ar wahân ar yr Agenda. Nododd y Cadeirydd felly, y byddai'r mater hwn yn cael ei drafod o dan Eitem 5 yn syth ar ôl Gohebiaeth y Pwyllgor.

2.3 Hysbysodd y Cadeirydd yr Aelodau, fod hunaniaeth gorfforaethol, fel y gwyddent, newydd wedi ei lansio ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru. O ganlyniad, gan ddechrau gyda'r cyfarfod nesaf, bydd adroddiadau'r Pwyllgor yn cael eu cyhoeddi o dan y logo newydd.

**Eitem 3: Gorchmynion y Cynulliad i'w Hystyried**
**LC575 – Rheoliadau Ansawdd Aer (Diwygio) (Cymru) 2002**
3.1 Cyflwynodd Mr Rowlands yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Gyflymach.

3.2 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor un sylw y dylid ei chofnodi yn ei adroddiad ym marn y Pwyllgor.

3.3 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC575 (Adroddiad).

**LC576 – Rheoliadau Gweithfeydd Stryd (Ffioedd Archwilio) (Diwygio) (Cymru) 2002**
3.4 Cyflwynodd Mr Rowlands yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Gyflymach.

3.5 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5 ac nid oedd ganddo unrhyw sylwadau.

3.6 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC576 (Adroddiad).

**LC574 – Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2002**
3.7 Cyflwynodd Mr Rowlands yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Safonol.

3.8 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5 ac nid oedd ganddo unrhyw sylwadau.

3.9 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC574 (Adroddiad).

**LC577 – Rheoliadau Organebau a Addaswyd yn Enetig (Eu Gollwng yn Fwriadol) (Cymru) 2003**

3.10 Cyflwynodd Mr Rowlands yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Safonol.

3.11 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Cafodd yr Ymgynghorwyr Cyfreithiol y cyfle i weld drafft cynnar a nodwyd nifer o bwyntiau a ystyriwyd yn y drafft terfynol.

3.12 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC577 (Adroddiad).

**LC580 – Gorchymyn Tai (Hawl i Gaffael a Hawl i Brynu) (Ardaloedd Gwledig Dynodedig a Rhanbarthau Dynodedig) (Cymru) 2003**

3.14 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Gorchymyn o dan y Weithdrefn Safonol.

3.15 Ar ôl ystyried adroddiad yr Ymgynghorwyr Cyfreithiol, daeth yr Aelodau i'r casgliad bod materion i'w codi o dan Reol Sefydlog 11.5. Mae'r Pwyllgor yn gwahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r diffyg drafftio yn erthygl 4(2). Byddai modd cywiro hwn drwy gyfwng memorandwm cywiriadau.

3.16 Gwnaeth y Pwyllgor ddau sylw y dylid eu cofnodi yn ei adroddiad ym marn y Pwyllgor.

3.17 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Gorchymyn fel LC580 (Adroddiad).

**LC572 – Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Rhestr Atodol Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) (Diwygio), y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) (Rhif 3), y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) (Rhif 3) a'r**

**Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2002**

3.18 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwnaed y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.19 Ar ôl ystyried adroddiad yr Ymgynghorwyr Cyfreithiol, daeth yr Aelodau i'r casgliad fod materion i'w codi o dan Reol Sefydlog 11.5. Mae'r Pwyllgor yn gwahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i fân wallau drafftio yn Rheoliad 5(6)(iv) a Rheoliad 7. Gall fod yn briodol unioni'r rhain fel cywiriadau argraffu.

3.20 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC572 (Adroddiad).

**Eitem 4: Gohebiaeth y Pwyllgor**

**Llythyr oddi wrth Michael German AC, y Gweinidog dros Ddatblygu Gwledig a Chymru Dramor, dyddiedig 20 Tachwedd 2002**

**LC543 – Gorchymyn Adnabod a Symud Defaid a Geifr (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Rhif 2) 2002**

4.1 Nododd y Cadeirydd ei fod wedi cael ateb i lythyr dyddiedig 30 Hydref 2002 at Michael German AC, y Gweinidog dros Ddatblygu Gwledig a Chymru Dramor ar **Y Gorchymyn Adnabod a Symud Defaid a Geifr (Mesur Dros Dro) (Cymru) (Rhif 2) 2002**. Ym marn y Pwyllgor roedd y Gorchymyn yn adroddadwy o dan Reol Sefydlog 11.5 gan fod anghysondeb yn Rheoliadau 5(2)(f)/(dd) rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg.

4.2 Nodwyd bod cywair cyffredinol llythyr y Gweinidog ychydig yn frysiog a diofal. Ym mharagraff 2 ateb y Gweinidog ("form" yn lle "from") mae'r un camgymeriad yn ychwanegu at yr anghysondeb.

4.3 Roedd Paragraff 3 llythyr y Gweinidog yn ymddangos yn ddiystyriol. Fel y mae ar hyn o bryd, mae modd herio'r Offeryn Statudol hwn. Roedd y pwynt yr oedd y Gweinidog yn ei ystyried yn amlwg ac o ganlyniad nad oedd angen ei egluro, mewn gwirionedd yn ddadleuadwy a phwysig. At hynny, nid oedd y Pwyllgor yn barod i gytuno rai mân anghysondeb oedd rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg.

4.4 Nid oedd y Gweinidog wedi bwriadu diwygio'r ddeddfwriaeth gyfredol a nodwyd ei bod yn dod i ben erbyn diwedd mis Ionawr cyn dechrau'r tymor sioeau newydd. Fodd bynnag, nodwyd er enghraifft bod sioe amaethyddol yn cael ei chynnal yn Llanelwedd heddiw.

4.5 O gofio'r holl bwyntiau a nodwyd uchod, penderfynodd y Pwyllgor wahodd y Gweinidog i fynychu cyfarfod y Pwyllgor er mwyn trafod y materion hyn.

**Eitem 5: Trafod y Cyflwyniad Drafft i Gomisiwn yr Arglwydd Richard**

5.1 Atgoffodd y Cadeirydd y Pwyllgor ei fod wedi cael gwahoddiad i gyflwyno tystiolaeth gerbron Comisiwn yr Arglwydd Richard. Nododd y Cadeirydd yr hoffai o glywed barn a chynigion yr Aelodau ar y pwnc gan ei fod wedi cael cynnig i siarad ar ran y Pwyllgor Deddfwriaeth.

5.2 Roedd yr Aelodau wedi cael y "Cyflwyniad Drafft i Gomisiwn yr Arglwydd Richard" yn ogystal â phapurau eraill y Pwyllgor. Roedd Aelod wedi cyflwyno awgrymiadau yn ysgrifenedig cyn y cyfarfod. Roedd y ddogfen a oedd yn eu cynnwys hefyd wedi ei he-bostio at yr Aelodau. Roedd copïau o "Gylch Gorchwyl Comisiwn yr Arglwydd Richard" wedi eu dosbarthu i'r Aelodau yn ystod y cyfarfod diwethaf.

5.3 Cynigiwyd y dylid mewnosod y pwyntiau canlynol ar ôl paragraff 2 y "Cyflwyniad Drafft i Gomisiwn yr Arglwydd Richard":

- Nododd y Pwyllgor anghysondeb mewn Cynulliad gyda chyfrifoldeb dros weithredu polisi heb ddylanwadu arno a Senedd gyda chyfrifoldeb dros ddeddfu polisi heb ei weithredu.
- Nid yw'r system bresennol yn llwyddo i gynnwys AC neu fuddiannau eraill wrth lunio cynigion ar gyfer deddfwriaeth yn San Steffan, nac wrth lunio polisïau sy'n sail i gynigion.
- Mae siom nad yw Llywodraeth y DU wedi ymateb yn fwy cadarnhaol i gynigion am ddeddfwriaeth, gan nodi mai dim ond un Ddeddf Cymru Gyfan a fu ers datganoli a dim ond un Mesur sydd wedi'i drefnu ar gyfer y sesiwn Seneddol nesaf.
- Awgrymwyd ei bod yn bwysig rhoi pwerau deddfwriaeth sylfaenol er mwyn galluogi'r Cynulliad i ddatblygu gallu gwleidyddol a chyfreithiol er mwyn rhoi mynegiant llawn i ofynion polisïau Cymru fel y'u mynegwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol.

5.4 Cytunwyd y dylid gosod yr awgrymiadau hyn ar ôl paragraff 2 y cyflwyniad gwreiddiol.

5.5 Awgrymwyd hefyd y dylid cynnwys meysydd lle y byddai pwerau deddfwriaeth sylfaenol o ddefnydd – er enghraifft, Gwasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd.

5.6 Mewn trafodaeth, nodwyd bod ansicrwydd o hyd mewn perthynas â gallu Aelodau'r Cynulliad i ddylanwadu ar ddeddfwriaeth. Nodwyd bod rhai aelodau o'r farn bod y broses yn gymhleth iawn. Dosbarthodd y Cadeirydd y diagram yn nodi llwybr Offerynnau Statudol a soniwyd am y seminarau Is-ddeddfwriaeth a gynhaliwyd yn y Cynulliad yn ogystal â'r Seminar arfaethedig ar Ddeddfwriaeth Sylfaenol.

**Eitem 6: Unrhyw Fater Arall a Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

6.1 Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 10 Rhagfyr 2002.